



MPA Wales/Cymru

Yn Cyflawni dros Gymru

Blaenoriaethau ar gyfer y Llywodraeth
... Blaenoriaethau ar gyfer y Diwydiant

Yn Echdynnu Mwynau ... Yn Cynhyrchu Cynhyrchion ... Yn Cyflenwi Marchnadoedd

Yn Cyflawni dros Gymru

[Y diwydiant cynhyrchion mwynau a chwarela](#) yw'r cynhyrchwr mwyaf yn economi y DU, ar 400 miliwn o dunelli y flwyddyn. Mae'n cyflenwi sment, concrit cymysgedd parod ac wedi'i rag-gastio, calch, asffalt, agregau, tywodydd a chleiau diwydiannol, llechi a cherig dimensiwn i'r diwydiant adeiladu a llawer o ddiwydiannau eraill.

Wrth i Gymru adfer o'r pandemig Coronafeirws, addasu i'r byd ar ôl Brexit ac ateb yr her sero-net ond eto cyflawni budd net, bydd ein diwydiant yn parhau i gyflenwi'r deunyddiau hanfodol sydd eu hangen i adeiladu seilwaith a chartrefi newydd a chyflenwi deunyddiau i ddiwydiannau strategol a sylfaen, gan gynnwys y cyfleustodau, diwydiannau gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth, ond mae angen i'r polisïau iawn gefnogi hyn.

Y sector sy'n cynhyrchu'r mwyafrif o'r deunyddiau 'trwm' sy'n hanfodol i gyflawni Bargen y Sector Adeiladu a'r Strategaeth Seilwaith Genedlaethol. Mae trafnidiaeth, ynni, dŵr, tai ac amddiffyn rhag llifogydd oll yn dibynnu ar gyflenwad cynhyrchion mwynau o ryw fath neu'i gilydd. **Rydym yn hanfodol i'r economi ac i waith gweithredu, datblygu a chynnal seilwaith Cymru, yn ogystal â'r amgylchedd adeiledig a'n hansawdd bywyd.**

Mewn blwyddyn nodweddiadol, mae ein haelodau'n cyflenwi mwy na miliwn o dunelli o adnoddau a chynhyrchion mwynau bob dydd ledled y DU. **Mae chwareli adferedig yn darparu buddion anferthol o ran bioamrywiaeth ar gyfer natur, gydag aelodau MPA hyd yma'n creu o leiaf 83km² o gynefinoedd â blaenoriaeth ledled y DU, gyda mwy o lawer wedi ymrwmo i wneud hyn yn y dyfodol.** Mae hyn yn golygu ein bod yn hanfodol i'r economi, y seilwaith a'r amgylchedd adeiledig a'n bod hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn creu budd net yn yr amgylchedd naturiol a mannau gwyll lle y gall bywyd gwyllt ffynnu ac, mewn llawer o achosion,


lle y gall pobl gysylltu â natur. Mae angen i gynigion ar gyfer y budd net gorfodol o ran bioamrywiaeth adlewyrchu'r gwir wahaniaeth rhwng echdynnu mwynau a gwaith datblygu arall, yn hytrach na'i gwneud yn fwy anodd darparu cyfleoedd sylweddol ar gyfer natur.

Bydd cynhyrchion mwynau yn parhau i fod yn hanfodol trwy gydol y cyfnod adfer economaidd ac yn hollbwysig ar gyfer twf yn y tymor hir. Byddant yn hanfodol i ymdrechion i 'godi gwastad' cymunedau, rhanbarthau a gwledydd, yn enwedig cyflenwi deunyddiau ar gyfer prosiectau seilwaith. **Fodd bynnag, ni ellir cymryd y bydd yna gyflenwad cyson a digonol o'r deunyddiau hyn.**

Roedd cefnogaeth y Llywodraeth i fusnes yn ystod cyfnodau cyntaf y pandemig yn hanfodol. Roedd aelodau MPA yn gwerthfawrogi'n benodol mesurau a'u helpodd i ddiogelu llif arian, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a gohirio talu TAW. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Llywodraeth o hanfodoldeb ein diwydiant, ond rhaid i'r gydnabyddiaeth hon nawr symblu newid mewn polisi trwy gyflwyno datganiad o angen cenedlaethol.

Bydd y diwydiant cynhyrchion mwynau'n chwarae ei ran lawn mewn cyflawni ymrwymiad sero-net 2050 y DU. Mae [Cement and Concrete Industry Roadmap to Beyond Net Zero](#), a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn manylu ar nod uchelgeisiol ond mae modd ei gyflawni â'r gefnogaeth iawn. Bydd y diwydiant yn parhau i arwain y byd ym maes ailgylchu deunyddiau gwastraff adeiladu a gwastraff mwynol.

Nod y diwydiant cynhyrchion mwynau yw cefnogi a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hagenda. I'n galluogi i wneud hyn, mae angen i lywodraethau greu amodau sy'n golygu cyn lleied o ansicrwydd â phosibl, sy'n meithrin hyder, sy'n annog buddsoddiad ac sy'n rhoi hwb i dwf.



Yn Echdynnu Mwynau... Yn Cynhyrchu Cynhyrchion... Yn Cyflenwi Marchnadoedd



Blaenoriaethau i'r Llywodraeth eu cyflawni

Cefnogi busnes i ffynnu trwy:

- Gyflenwi setliad economaidd newydd ar ôl Brexit sy'n cadw Cymru'n gystadleuol ac sy'n sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddewis buddsoddi deniadol, dibynadwy
- Gwellu'r tai a'r seilwaith ynni a thrafnidiaeth y bwriedir eu darparu
- Sicrhau bod systemau addysg a sgiliau'n darparu'r sgiliau a'r galluedd angenrheidiol i'r gweithlu ar gyfer yr economi fodern

Cefnogi'r diwydiant i ddatgarboneiddio trwy:

- Sefydlu'r gefnogaeth ariannol a rheoleiddiol sydd ei hangen ar gyfer Dal, Defnyddio a Storio Carbon mewn pryd i'r diwydiant fuddsoddi a'i wireddu
- Gwellu'r dulliau mesur a'r ddealltwriaeth o'n hallyriadau trwy ddefnyddio mesur traul allyriadau carbon er mwyn sicrhau cyn lleied o golledion â phosibl a sicrhau bod pawb yn cael eu trin yr un fath, yn ogystal â chyflwyno cerdyn sgorio cytbwys ar gyfer pob sector
- Asesu allyriadau o adeiladau dros eu hoes gyfan
- Cefnogi defnyddio biomas a biomas gwastraff i redeg gweithrediadau'n uniongyrchol yn hytrach nag ysgogi ei ddefnyddio ar gyfer pethau llai effeithlon

Cryfhau cadwyni cyflenwi Cymru trwy:

- greu'r cysylltiad rhwng pob ffurf o ddatblygu a'r cadwyni cyflenwi cynhyrchion mwynau hanfodol y maent yn dibynnu arnynt a gwreiddio hyn mewn polisi trwy gyflwyno datganiad o angen cenedlaethol
- Blaenoriaethu a chefnogi cyflenwad cynhenid o fwynau a chynhyrchion mwynau, ac ail-lenwi stociau wrth gefn, yn unol â [Strategaeth Mwynau y DU](#)
- Sicrhau niwtraled rhwng dulliau a deunyddiau adeiladu i gyflawni prosiectau cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian
- Mabwysiadu polisiâu caffael sy'n cefnogi cyflenwi deunyddiau adeiladu sydd wedi'u ffynonellu'n gyfrifol

Gwneud y diwydiant yn fwy cystadleuol trwy:

- Sicrhau bod pob un o Ddiwydiannau Ynni-Ddwys y DU yn cael eu trin yr un fath, gyda threthi ynni a charbon cymesur a chystadleuol
- Sicrhau bod rheoliadau ac ansawdd dal yn gyfwerth â safonau Ewropeaidd lle bo hynny'n amddiffyn neu'n hyrwyddo busnesau'r DU
- Gorfodi'r un safonau amgylcheddol ar gyfer deunyddiau adeiladu sy'n cael eu mewnfario â deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu yma

Gwneud trethi'r diwydiant yn decach ac yn fwy effeithlon trwy:

- Sicrhau trethi cymesur a chyson, yn enwedig ar gostau ynni ar gyfer diwydiannau sy'n wynebu colledion carbon
- Adlewyrchu trethi sy'n benodol i ddiwydiannau, fel yr Ardoll Agregau, gyda cefnogaeth polisi digonol ar gyfer y diwydiannau hynny e.e. ariannu'r system cynllunio mwynau'n briodol gyda chyfran fach o'r refeniw ochr yn ochr â [Chronfa Cymunedau](#) i gefnogi cymunedau lleol a'r amgylchedd

Gwellu rheoleiddio trwy:

- Ddarparu adnoddau priodol ar gyfer y [system cynllunio mwynau](#) a'r system trwyddedu amgylcheddol
- Cynnal safonau amgylcheddol a thechnegol sydd eisoes yn bodoli, ond mynd ati i reoleiddio'n fwy effeithlon
- Gwneud effeithiau cronol rheoleiddio gwaith cynllunio a thrwyddedu mor fach â phosibl ac osgoi dyblygu rheoleiddio
- Sicrhau bod gwaith cynllunio'r defnydd o dir yn diogelu gweithrediadau mwynau a'r cyfleusterau trafnidiaeth cysylltiedig



Yn Echdynnu Mwynau ... Yn Cynhyrchu Cynhyrchion ... Yn Cyflenwi Marchnadoedd



Blaenoriaethau i'r Diwydiant eu cyflawni

Gwneud cyflenwad Cymru'n fwy cynaliadwy trwy:

- Warchod [iechyd a diogelwch](#) ein gweithlu a phawb sy'n gysylltiedig â'r diwydiant, gan gynnwys [cymdogion a chymunedau lleol](#)
- Parhau i ddefnyddio [deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu a deunyddiau eilaidd](#) i'r eithaf, gan gefnogi'r economi gylchol
- Cyfrannu at wella ansawdd aer lleol, gan leihau allyriadau llygrwyr aer
- Defnyddio gwastraff ar gyfer tanwydd a'i leihau yn ein prosesau ac, ar yr un pryd, ailgylchu mwy a chynyddu effeithlonrwydd ynni

Darparu a galluogi atebion i Gymru gyflawni sero-net erbyn 2050 trwy:

- Ddefnyddio tanwyddau amgen cymaint â phosibl, gan gynnwys biomas gwastraff, tanwydd sy'n deillio o wastraff ac archwilio technoleg newydd, gan gynnwys treialu hydrogen yn y man archwilio
- Cyflenwi mwy o gynhyrchion newydd fel smentiau a choncritau carbon isel
- Gweithio tuag at roi Dal, Defnyddio a Storio Carbon ar waith

Cynyddu budd net ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth natur trwy:

- Ddiogelu a chyfoethogi bioamrywiaeth ac adferiad natur trwy reoli ac adnewyddu tir a safleoedd gan gynnwys, lle bo'n bosibl, darparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth, yn unol â [Strategaeth Bioamrywiaeth MPA](#)

- Helaethu ein gwybodaeth am botensial bioamrywiaeth ar safleoedd gweithredol ac yn agos atynt, ac am sut orau i gael y buddion mwyaf posibl trwy reoli, adnewyddu a defnyddio wedyn a thrwy fonitro a rhannu profiad
- Rhannu arfer gorau rhwng ein haelodau a'n partneriaid trwy ddigwyddiadau a briffio rheolaidd a thrwy ein gweithgor Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur
- Datblygu ein partneriaethau â sefydliadau cadwraeth, y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ac unigolion i sicrhau bod pawb yn deall ac yn gwireddu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â gweithrediadau mwynau

Ateb y galw yn y dyfodol am gynhyrchion mwynau yn sgil twf a datblygiad economaidd trwy:

- Fuddsoddi yn ein pobl i wella sgiliau a chymhwysedd, gwella cynhyrchiant ac ehangu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector
- Buddsoddi mewn adnoddau mwynol, safleoedd gweithgynhyrchu a gweithrediadau trafniadaeth cynhenid
- Cyfrannu at ddatblygu cynhyrchion mwynau yn arloesol ac at ddatblygu safonau cynhyrchion a chodau dylunio



Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau yw'r gymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiannau agregau, asfalt, sment, concrit, cerrig dimensiwn, calch, mortar a thywod silica.

I gael rhagor o wybodaeth am MPA ewch i www.mineralproducts.org

© Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau 2021

MPA Wales/Cymru

Buttermilk Hall, Fron
Garthmyl, Powys SY15 6SA

Ffôn + 44 (0)1686 640630

Ffôn symudol 07967 655379

<https://mineralproducts.org/wales>



deunyddiau hanfodol
atebion cynaliadwy

essential materials
sustainable solutions

Cynhyrchion Mwynau: yn hanfodol i ysgolion... ysbytai... cartrefi... ffyrdd... rheilffyrdd...
cyflenwad ynni... meysydd awyr... porthladdoedd... bwyd... dŵr... amaethyddiaeth